LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Strategaeth ddigido 2011/12-2014/15
Digitisation strategy 2011/12-14/15



333

GALAR-GAN

AR OL Y

MOCHYN DU.

Holl drigolion broydd a bryniau,
Dewch i wrando hyn o eiriau,
Fe gewch hanes ryw hen Fochyn,
A fu farw yn dra sydyn.

O! mor drwm ydym ni!
O! mor drwm ydym ni!
Y mae yma alar calon,
Ar ol claddu'r Mochyn Du.

Beth oedd achos ei afiechyd?
Beth roes derfyn ar ei fywyd?
Ai maidd glas oedd achos angau
I'r hen Fochyn i fyn'd adrau?

O! mor drwm ydym ni!
O! mor drwm ydym ni!
Y mae yma alar calon,
Ar ol claddu'r Mochyn Du.

Galargan ar ôl y mochyn du. Llanbedr : J. Davis, [18--]. (JHD v. 333).
Digidwyd fel rhan o'r cynllun digido **Baledi Cymru ar-lein**.
Digitised as part of the **Welsh ballads on-line** project
<http://cat.llgc.org.uk/cgi-bin/gw/chameleon?skin=baledi>

1. Cyflwyniad

Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw un o brif sefydliadau cenedlaethol Cymru. Mae i'r Llyfrgell le canolog ym mywyd ein cenedl fel sefydliad diwylliannol sy'n gweithredu fel cof tymor hir cyfunol i'n gwlad, ac yn helpu i ddiffinio a dehongli'r cof hwnnw i'n pobl ac i'n byd. Mae hefyd yn sefydliad gwybodaeth o bwys â lle allweddol yn y gwaith o adeiladu economi a chymdeithas yng Nghymru.

Lluniwyd y strategaeth hon yn i gyd-fynd â strategaeth ehangach y Llyfrgell ar gyfer y cyfnod 2011/12-2013/14, *Y llyfrgell ystwyth*, a dylid ei darllen ar y cyd â'r strategaeth honno.

Beth yw digido a pham bod y Llyfrgell Genedlaethol yn digido?

Ar gyfer y strategaeth hon diffinnir digido yn syml fel trosi adnoddau analog i fformat digidol. Gwneir hynny er mwyn gwella ac ehangu ar fynediad at yr adnoddau hynny, er mwyn cadw yr adnoddau analog gwreiddiol i'r dyfodol a diogelu'r cynnwys deallusol, ac hefyd fel dull i'r Llyfrgell greu incwm i barhau ac ehangu ar y gwaith hwnnw ar adeg o grebachu mewn gwariant o'r pwrs cyhoeddus.

Nid gweithgaredd sy'n sefyll ar wahân yw digido ond yn hytrach mae wedi'i gysylltu mewn rhyw fodd neu'i gilydd gyda'r rhan fwyaf o weithgareddau'r Llyfrgell a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Adlewyrchir hyn yn y strategaeth hon.

Y strategaeth a digido yn y Llyfrgell Genedlaethol

Yn ogystal â strategaeth *Y llyfrgell hyblyg* mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar strategaethau digido blaenorol y Llyfrgell ac yn tynnu ar brofiadau sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y maes. Gwelodd strategaethau digidio blaenorol ddigido yn dod yn weithgaredd prif-ffrwd o fewn i'r Llyfrgell. Bwriadwyd gweithgaredd digido y Llyfrgell yn bennaf er mwyn ateb disgwyliadau defnyddwyr am well mynediad at ein casgliadau yn y byd digidol a thrwy fwydo cynnwys digidedig y Llyfrgell i mewn i fentrau cydweithredol megis cynllun Europeana – a noddir gan y Comisiwn

1. Introduction

The National Library of Wales is one of the country's major national institutions. The Library has a central role in the life of our nation as a cultural institution and serves as a our country's collective long-term memory and helps define and interpret that memory for our people and for the world. It is also an important knowledge institution and has a key role to play in building an economy and society in Wales based on knowledge and information.

This strategy was written to complement the Library's general strategy for the period 2011/12-2013/14, *The agile library,* and should be read along with that strategy.

What is digitisation and why does the National Library of Wales undertake digitisation?

For this strategy digitisation is defined simply as the conversion of analogue resources into a digital format. This is done in order to widen and enhance access to those resources, to preserve the intellectual content of those resources for the future, and also as a means for the Library to generate income to enable it to continue and to expand on this activity at a time of diminishing resources for public services.

Digitisation is not an activity that happens in isolation but it is linked in some way or other to most of the Library's other activities and services that it offers. This is reflected in the strategy.

This strategy and digitisation in the National Library

In addition to *The agile library* strategy this strategy is also builds upon the Library's past digitisation strategies and draws from the experiences of other institutions that are working in the field. Previous digitisation strategies saw digitisation become a mainstream activity within the Library. Digitisation activity then concentrated mainly on responding to user expectations for improved access to our collections in the digital world and offering even greater exposure by contributing digitised content to initiatives such as the European Commission sponsored Europeana project. By now the

Ewropeaidd – ehangir mynediad yn sylweddol. Bellach mae'r Llyfrgell yn ystyried digido fel dull o sicrhau cadwedigaeth ei hadnoddau gwreiddiol a'u cynnwys deallusol ac hefyd fel modd o greu incwm.

Ers 2000 sefydlwyd tîm yn benodol ar gyfer digido o fewn i'r Llyfrgell ac mae'r tîm hwnnw mewn cydweithrediad â thimau eraill ar draws y Llyfrgell wedi bod yn gyfrifol am ddigido ystod eang o ddeunyddiau o fewn i raglen ddigido dros y blynyddoedd ers hynny ac wedi cyfrannu hefyd tuag at nifer o brojectau digido arwyddocaol . Mae gwybodaeth ac arbenigedd y Llyfrgell yn y maes yn sylweddol. Dros y cyfnod hwn cynhyrchwyd rhyw 5 miliwn o ddelweddau digidol. Cadarnhawyd lle'r Llyfrgell Genedlaethol o fewn i'r maes gyda sefydlu Cadair Prifysgol Cymru mewn Casgliadau Digidol yn 2011. Mae datblygu pellach ar greu màs critigol o gynnwys yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys buddsoddi adnoddau'r Llyfrgell, natur partneriaethau allanol, datblygiadau mewn technoleg, y math o ddeunydd i'w ddigido, a'r dulliau digido sydd ar gael.

Er bod casgliad digidol y Llyfrgell Genedlaethol yn cynnwys adnoddau sydd wedi'u digido ac adnoddau digidanedig, nid yw'r strategaeth hon yn ymwneud â chasglu a rheoli cynnwys digidanedig.

Library sees digitisation as a means of preserving the original resources it cares for and their intellectual content and also as a means of generating income.

Since 2000 the library has established a team with the Library especially for digitisation, and that team along with other teams throughout the Library have been responsible for digitising a wide range of materials over the years within the digitisation programme. The Library's knowledge and specialism in the field is substantial. Over this period some 5 million digital still images of resources have been produced. The National Library's position was confirmed with the establishment of the University of Wales Chair in Digital Collections at the Library in 2011. But further developments to create a critical mass of digitised content depend on a number of factors including the investement of the Library's resouces, the nature of external partnerhsips, technical developments, the format of resources to be digitised and digitisation techniques that are available.

The National Library's digital collection contains both digitised and born-digital resources, but this strategy does not deal with the collection and management of born-digital content.

2. Datganiad o'n bwriad

Yn ystod y cyfnod 2011/12-2014/15, cyfnod y strategaeth hon, bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn gweithio tuag at gyflawni'r amcanion canlynol.

- Creu màs critigol o gynnwys wedi'i ddigido yn ymwneud â Chymru a'r Cymry yn seiliedig ar gasgliadau'r Llyfrgell.
- Mynd â chasgliadau'r Llyfrgell sydd wedi'u digido at ddefnyddwyr hen a newydd ble bynnag y maent.
- Annog a galluogi defnydd o gasgliadau'r Llyfrgell sydd wedi'u digido mewn ffyrdd newydd ar gyfer ymchwil a dysgu.
- Adolygu gweithgaredd digido y Llyfrgell a chynnyrch y rhaglenni a phrojectau digido yn gyson yng nogleuni barn defnyddwyr a datblygiadau technegol.
- Cefnogi rhaglenni addysg, arddangosfeydd, masnachol ac estyn allan y Llyfrgell.
- Digido er mwyn sicrhau cadwedigaeth hirdymor y deunydd gwreiddiol trwy greu copïau dirprwyol a galluogi mynediad parhaol at adnoddau sydd wedi'u digido a'u cynnwys deallusol.

2. What we intend to do

During the period 2011/12-2014/15, the period of this strategy, the National Library will work towards achieving the following aims.

- Create a critical mass of digitised content relating to Wales and the Welsh based upon the Library's collections.
- Take the Library's digitised collections to existing and new users regardless of their location.
- Encourage and enable use of the Library's digitised collections in new ways for research and learning.
- Review the Library's digitisation activities and the outputs of the digitisation programmes and projects in the light of users' reactions and technical developments.
- Support the Library's education, exhibition, commercial and extension programmes.
- Digitisation in order to ensure the long term preservation of the original resources through the creation of surrogate copies and ensuring permanent access to the digitised resources and their intellectual content.

3. Rhaglen ddigido

Bydd rhaglen ddigido'r Llyfrgell Genedlaethol dros gyfnod y strategaeth yn cynnwys y tair elfen ganlynol.

Digido ar gyfer mynediad

Mae'r egwyddorion digido a amlinellir yn y strategaeth hon yn gymwys ar gyfer holl adnoddau analog y Llyfrgell Genedlaethol ond bydd y prif bwyslais ar ddigido casgliadau ar raddfa fawr. Byddwn yn parhau i ddigido deunydd printiedig gyda golwg ar gyflawni gweledigaeth *Theatr y cof: print Cymru ar-lein* trwy ddigido cyfran sylweddol o gynnyrch print y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau trafod ffyrdd posib o gydweithio gydag eraill i ddigido detholiad o gyhoeddiadau mewn hawlfraint sydd allan o brint. Bydd y Llyfrgell yn parhau ac yn cynyddu digido adnoddau unigryw gan gynnwys deunydd clyweledol analog, gyda golwg ar ddigido casgliadau sylweddol o lawysgrifau cynnar, cofnodion llys y Sesiwn Fawr, ac archif ITV Cymru. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol wrth astudio cwmpas projectau eraill posib.

Digido ar gyfer cadwedigaeth

Bydd digido ar gyfer cadwedigaeth yn ymrywmiad newydd ar gyfer y Llyfrgell. Golyga hyn y bydd angen edrych ar nodau ac amcanion yr eflen hon o'r rhaglen ynghyd ag ystyriaethau mwy ymarferol. Bwriad y Llyfrgell yw darparu copïau dirprwyol parhaol o ddeunydd bregus ac yn mudo cynnwys mewn perygl i fformat ddigidol er mwyn sicrhau ei diogelwch hir-dymor. Ni fydd hyn yn newid ar ei hymrwymiad i sicrhau cadwedigaeth yr adnoddau analog gwreiddiol.

Digido ar gyfer defnyddwyr a chwsmeriaid allanol

Bydd y Llyfrgell yn parhau i ddigido adnoddau o'i chasgliadau ar gyfer defnyddwyr yn ôl y galw. Bydd y Llyfrgell hefyd yn cynnig gwasanaethau digido i gwsmeriaid allanol. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i gynyddu incwm wrth ddefnyddio ein hadnoddau a'n sgiliau digido i gefnogi gwaith pellach gan y Llyfrgell yn y maes

3. Digitisation programme

The National Library's digitisation programme for the period of this strategy will be made up of three elements.

Digitisation for access

The principles for digitisation outlined in this strategy are applicable to all types of analogue resources in the collection of the National Library of Wales but the main emphasis will be on larger scale digitisation. We will continue to digitise printed material with a view to achieving the vision set out in *The theatre of memory: Welsh print online* by digitising a significant proportion of nineteenth-century printed works relating to Wales and of beginning the process of exploring possible ways of working with others to digitise a selection of in-copyright printed materials which are out of print. The Library will continue and increase the digitisation of unique resources including analogue audiovisual materials, with a view to digitising significant collections of early manuscripts, the Court of Great Session records, and the ITV Wales archive. We will ensure that we plan for the future by scoping other possible projects.

Digitisation for preservation

Digitisation for preservation will be a new commitment for the Library. This means that there will be a need to examine the aims and objectives of this element of the programmes as well as the practical implications. It is the Library's intention to provide permanent surrogate copies of fragile materials and to migrate at risk content to digital formats to ensure its long-term security. This does not mean that the Library has changed its committeeman to ensure the preservation of the original analogue materials.

Digitisation for users and external customers

The Library will continue on-dement digitisation of resources from its collection for its users. The Library will also offer digitisation services to external customers. We will take advantage of every opportunity to increase our income by using our resources and digitisation skills to support further work by the Library in this field. We will

hwn. Byddwn rhoi ystyriaeth dyladwy i unrhyw gyfleon masnachol a fydd yn deillio o hyn.

investigate thoroughly any commercial opportunities that spring from this activity.

4. Egwyddorion digido

Bydd ein rhaglen ddigido yn cael ei llywio yn bennaf gan egwyddorion mynediad a chadwedigaeth, a hefyd ystyriaethau ymarferol y broses ddigido. Lle bo'n bosib gweithredwn yr egwyddorion a ganlyn.

Adeiladu'r casgliad cenedlaethol. Bydd y Llyfrgell yn cynllunio ei rhaglen ddigido i adlewyrchu cryfderau ei chasgliadau, yn arbennig lle maent yn gynhwysfawr neu'n unigryw. Cydnebydd y Llyfrgell fod eraill yn gweithio yn y maes a bydd yn cydweithio gyda sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt er mwyn osgoi dyblygu ymdrech.

Digido ar raddfa fawr. Bydd y Llyfrgell yn parhau i ddigido ar raddfa fawr gyda'r pwyslais ar ddigido casgliadau cyfain neu gategorïau o adnoddau. Cydnebydd y Llyfrgell y bydd angen sicrhau cydbwysedd rhwng ansawdd a faint o adnoddau sy'n cael eu digido.

Safonau. Bydd y Llyfrgell yn gweithredu yn unol â safonau rhyngwladol sydd wedi'u derbyn yn gyffredinol wrth gipio data yn ddigidol, catalogio a chreu metadata eraill, storio data, gweithredu camau ar gyfer sicrhau cadwedigaeth y data a chynnig mynediad atynt.

Technoleg. Bydd y Llyfrgell yn cynnal ac yn datblygu ei hisadeiledd technegol i gefnogi gweithgaredd digido ar raddfa fawr. Bydd hyn yn cynnwys awtomeiddio a safoni pellach ar y llifoedd gwaith lle bo hynny'n berthnasol er mwyn eu gwneud yn gymwys ar gyfer amrywiol ymdopi ag amrywiol fformatau analog gwreiddiol ac er mwyn rheoli'r broses yn ei chyfanrwydd. Bydd hyn yn cynnwys safoni cyhoeddi'r adnoddau neu'u ffrydio. Datblygir offer a theclynnau pellach ar gyfer dehongli, pecynnu ac ail-bwrpasu adnoddau a ddigidwyd.

Hawliau eiddo deallusol a thrwyddedu. Wrth gynyddu mynediad at ei chasgliadau bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â hawliau eiddo deallusol. Bydd y Llyfrgell yn ymchmwilio i statws hawlfraint adnoddau

4. Principles for digitisation

Our digitisation programme will be guided mainly by principles relating to access and preservation, and also practical issues relating to the digitisation process. Where possible we will implement the following principles.

Building the national collection. The Library will plan its digitisation programme to reflect the strengths of its collections, especially where they are comprehensive or are unique. The Library recognises that others are also working in this field and will cooperate with other organisation in Wales and beyond to avoid duplication of effort.

Large scale digitisation. The Library will continue to digitise on a large scale with the emphasis on the digitisation of complete collections or classes of resources. The Library recognises the need to strike a balance between quality and the number of resources that are digitised.

Standards. The Library will work in accordance with the generally adopted standards in the fields of digital data capture, cataloguing and the creation of metadata, data storage, undertaking preservation actions on digitised data and in providing access to them.

Technology. The Library will maintain and develop its technical infrastructure to support digitisation activity on a large scale. This will include the further automation and standardisation on work flows where relevant in order to ensure that they are compatible with various formats of original analogue resources and in order to manage the process from beginning to end. This will include standardisation of publication and streaming of digitised data. Applications and tools will be developed to enable interpretation, repackaging and re-purposing of digitised resources.

Intellectual property rights and licensing. In increasing access to its collections the National Library will conform with the legislation relating to intellectual property rights. The Library will research into the copyright status of resources before it

cyn eu digido a phan bydd ganddi'r hawl i wneud yn annog eu hail-ddefnyddio wrth eu trwyddedu yn unol â thrwydded agored tebyg i un Creative Commons ar gyfer defnydd addysgol ac anfasnachol. Byddwn yn edrych ar fodelau busnes ar gyfer digido deunydd sydd yn dal i fod mewn hawlfraint trwy drafod a negodi gyda'r deiliaid hawliau. Yn achos gweithiau amddifad bydd y Llyfrgell yn dilyn ei pholisïau a gweithdrefnau mewnol ar gyfer sicrhau gofal dyladwy.

undertakes their digitisation a when it has the right to do so it will encourage their reuse by licensing them with an open licence similar to the Creative Commons licence for educational and non-commercial use. We will look at business models for the digitisation of in-copyright materials by negotiating with the rights holders. In the case of orphan works the Library will ensure that it follows its internal policies and routines to ensure due diligence.

Darganfod adnoddau. Mae'r Llyfrgell yn cydnabod lle canolog metadata wrth gynnal a chynyddu mynediad at a defnydd o'r adnoddau a ddigidir. Bydd yn gweithio ar y metadata er mwyn ychwanegu gwerth at y cynnwys sydd wedi'i ddigido. Bydd hefyd yn ymchwilio dulliau amgen o greu metadata gan gynnwys disgrifio ac echdynnu metadata yn awtomatig a chreu trwy weithgaredd dorfol. Cyfoethogir mynediad at ddeunydd testun trwy ei gipio a'i amgodio'n awtomatig neu â llaw. Byddwn yn annog eraill i ddatblygu dulliau amgen o gynnig mynediad at yr adnoddau sydd wedi'u digido.

Resource discovery. The Library recognises that metadata has a central role to play as its maintains and increases access to and use of its digitised resources. It will work on the metadata in order to add value to them and the digitised resources. It will also investigate alternative methods of creating metadata including automatic description and metadata extraction as well as harnessing the power of the crowd. Access to textual materials will be enriched by its automatic or manual capture and encoding. We will encourage others to develop alternative means of access to the resources that have been digitised.

Marchnata a brandio. Bydd y Llyfrgell yn hyrwyddo ei gweithgareddau digido er mwyn sicrhau fod gwybodaeth am y casgliadau digidol ar gael yn eang. Gwneir gwaith hyrwyddol arbennig ar gyfer defnyddwyr a chymunedau penodol lle bo hynny'n addas. Defnyddir amrywiol ddulliau i hyrwyddo gwasanaeth digidol y Llyfrgell yn gyffredinol ac adnoddau penodol sydd wedi'u digido. Wrth i'r Llyfrgell ddatblygu a chynyddu'r ystod o gasgliadau a gwasanaethau digidol sicrheir eu bod wedi'u brandio yn glir ac yn hawdd i'w hadnabod.

Marketing and branding. The Library will promote its digitisation activities in order to ensure that information about the digital collections is available widely. Targeted promotion for specific user groups and communities will be undertaken where appropriate. Varied means will be used to promote the Library's digital services in general as well as specific resources that have been digitised. As the Library develops and increases the range of its digital collections and services it will ensure that they are clearly branded and easily recognised.

Dehongli ac arddangos. Bydd y Llyfrgell yn dehongli detholiad o'i chasgliadau sydd wedi'u digido. Bydd hefyd yn creu arddangosfeydd rhithiol o'r casgliadau hynny a datblygir yr offer i alluogi hynny ddigwydd.

Interpretation and exhibitions. The Library will provide interpretation for a selection of its collections that are digitised. It will also create virtual exhibitions based on those collections and will develop the tools to enable that to happen.

Ymchwil a dysgu. Bydd y Llyfrgell yn sicrhau fod ei rhaglen ddigido yn agored i ymchwilwyr academaidd. Bydd yn cydweithio gyda'r gymuned academaidd wrth ddigido'i chasgliadau ac yn darparu gwasanaethau yn seiliedig ar y casgliadau

Research and learning. The Library will ensure that its digitisation programme is open to academic researchers. It will work with the academic community as it digitises its collections and will provide services based on those collections to enable and encourage

hyn i alluogi ac annog ymchwil. Bydd yn sicrhau fod adnoddau gyda dynodydd parhaol er mwyn medru enwi'n ddigonol ar gyfer pwrpasu cyfeirio. Datblygir offer perthnasol er mwyn galluogi pecynnu adnoddau sydd wedi'u digido yn adnoddau dysgu hylaw ar gyfer addysgwyr.

research. It will ensure that resources have a permanent identifier to enable citation of the resources. Relevant tools will be developed to enable the preparation and publication of learning packages bases based on the digitised collections for the use of teachers.

Cadwedigaeth ddigidol. Er mwyn cynnig mynediad parhaol i adnoddau sydd wedi'u digido rhaid wrth yr isadeiledd trefniadol a thechnegol cymwys a fframwaith cadarn o adnoddau. Amlinellir ymrwymiad trefniadol y Llyfrgell yn y Polisi Cadwedigaeth Ddigidol. Bydd ystyriaethau mynediad parhaol yn rhan hanfodol o lifoedd gwaith digido yn y Llyfrgell.

Digital preservation. Continued access to the Library's digitised resources is dependent upon an appropriate organisational and technological infrastructure and a robust resource framework. The Library's organisational commitment to the long-term preservation of digital assets is outlined in its Digital Preservation Policy.

Gweithio effeithiol ac effeithlon. Byddwn yn parhau i ddatblygu gweithlu hyblyg a fydd yn medru troi eu llaw at wahanol elfennau yn y broses ddigido. Bydd y Llyfrgell yn adolygu ei phrosesau digido yn fel eu bod yn gweithio yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon gan eu dadansoddi er mwyn ennill arbedion amser pellach ac er mwyn sicrhau y gwerth gorau am arian. Ysytrir digido hefyd fel cyfrwng i weithredu gweithgareddau eraill o fewn y Llyfrgell yn fwy effeithiol, yn arbennig ym meysydd derbyn a chatalogio. Rheolir projectau digido gan ddilyn methodolegau cydnabyddedig a bydd y Llyfrgell yn ceisio achrediad cydnabyddedig ar gyfer eu gwasanaethau digido fel modd o sicrhau ansawdd i ateb gofynion defnyddwyr a chwsmeriaid.

Efficient and effective working. We will continue to develop an agile workforce that will be able to undertake various elements that are part of the digitisation process. The Library will review its digitisation processes carefully in order to ensure that they work in the most efficient and effective manner by examining them regularly for further time efficiencies and in order to ensure that they deliver the best value for money. We will look at the use of digitisation as a means of undertaking other activities in the Library in a more effective manner, especially in the fields of acquisition and cataloguing. Projects will be managed following recognised methodologies and the Library will work towards accreditation for its digital services to ensure quality in order to meet the requirements of users and customers.

Gwasanaethau reporgraffeg a digido ar gais. Bydd y Llyfrgell yn mynd i'r afael â'r angen i sicrhau fod copïau digidol sy'n cael eu creu y tu fas i'r raglen ddigido, gan gynnwys y gwasanaeth llungopïo, yn cael eu corffori yng nghasgliadau digidol y Llyfrgell Genedlaethol ac ar gael i'w defnyddwyr lle bo hynny'n bosib.

Reprographic services and digitisation on demand. The Library will look at the need to ensure that digital copies that are created outside the digitisation programme, including by the photocopying service, are included in the National Library's digital collections and available to users when that is possible.

Adolygu cynlluniau a gwaith y gorffennol. Mae'r Llyfrgell yn cydnabod fod gwerth ei chasgliadau digidol yn dibynnu ar wneud y casgliadau hynny yn hygyrch i'w defnyddwyr a'u bod yn medru cael eu defnyddio yn hylaw o fewn i amgylchedd rhwydweithiau digidol. Bydd y Llyfrgell yn adolygu cynnyrch rhaglen ddigido'r

Review of projects and produce from the past. The Library recognises that the value of its digital collections depend on making those collection accessible to its users and that they are easily useable within a networked digital environment. The Library will review regularly the produce of the digitisation programmes of the past in order

gorffennol yn gyson er mwyn sicrhau ei bod yn medru cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr y presennol.

to ensure that they can be used and are used by the users of the present.

5. Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant?

Byddwn yn defnyddio cyfuniad o fesurau i asesu llwyddiant gweithgaredd digido y Llyfrgell.

Nifer

Byddwn yn mesur niferoedd i asesu ein gweithgareddau digidol yn ôl faint o adnoddau analog a gaiff eu trosi i ffurf ddigidol. Byddwn hefyd yn mesur effeithlonrwydd ein prosesau digido o ran amser ac adnoddau.

Ansawdd

Byddwn yn defnyddio mesurau ansoddol llwyddiant hefyd. Bydd hyn yn cynnwys arolygon ar-lein o farn ac ymateb defnyddwyr i'r adnoddau sydd wedi'u digido, cyfweliadau ag unigolion, a thrwy atborth oddi wrth grwpiau a chymunedau o fudd-ddeliaid.

Defnydd

Byddwn yn mesur defnydd o'n hadnoddau trwy weithredu meddalwedd i gasglu ystadegau gwe dadansoddol yr adnoddau sydd wedi eu digido ar ein gwefan a thrwy ddadansoddi ffeiliau lòg. Byddwn hefyd yn mesur defnydd o'n hadnoddau ar wefannau eraill a dolenni o wefannau eraill i'n hadnoddau.

5. How will we measure success?

We will use a combination of measure to asses the success of digitisation activities in the Libraries.

Quantity

We will use quantitive measures to assess our digitisation activities in terms of the numbers of analogue resources converted to digital format. We will also measure the effectiveness of our digitisation processes against time and resources used.

Quality

We will also use various qualitative measures of success. These will include on-line surveys of users views and opinions on our digitised resources, interviews with individual users, and feedback from stakeholder groups and communities.

Use

We will also measure the use of our digitised resources through the harvesting of analytical statistics on the use of the digitised resource on our website and through analysis of the log files. We will also monitor the use of our resources on other websites and links from other websites to our resources.

6. Dewis a blaenoriaethu adnoddau i'w digido

Bydd digido yn y Llyfrgell yn rhan o gynllun gweithredu wedi'i gynllunio a'i arolygu gan Pwyllgor Gweithredu Digido y Llyfrgell yn ateb i'r Pwyllgor Strategaeth Sustemau Gwybodaeth (PySSG). Y mae'r Llyfrgell yn cydnabod na fydd hi'n bosib digido popeth ac felly bydd angen dewis, dethol a blaenoriaethau pa adnoddau i'w digido.

Dewis a dethol

Bydd y canlynol yn cael eu hystyried wrth ddewis a dethol adnoddau i'w digido.

- **Galw a defnydd o'r adnoddau.** Beth yw'r galw am yr adnoddau yn eu ffurf analog? Pwy fydd yn defnyddio'r adnoddau ar eu ffurf ddigidol? A fydd hi'n haws cael mynediad at yr adnoddau o'u digido? A yw defnyddwyr wedi dweud eu bod am weld yr adnoddau yn cael eu digido? A fyddai digido yn cynyddu'r defnydd o'r adnoddau? A yw'r mynediad cyfyng at yr adnoddau anaolog yn golygu y byddai eu digido yn creu cynulleidfa newydd? A fyddai digido yn cynyddu defnydd o'r gwreiddiol analog? A oes adnoddau perthynol wedi'u digido?
- **Arwyddocâd yr adnoddau.** A yw'r adnoddau yn ffurfio casgliad cynhwysfawr neu a yw'r adnoddau yn rhai unigryw neu brin? A yw ansawdd a chynnwys deallusol yr adnoddau yn cyfiawnhau'r mynediad mwy hwylus y byddai eu digido yn ei gynnig? A fyddai digido yn ychwanegu gwerth at yr adnoddau neu a yw'r ffurf analog wreiddiol yn ddigonol?
- **Hawliau ac ystyriaethau cyfreithiol.** A yw'r adnoddau allan o hawlfraint ac yn y pau cyhoeddus? A fyddai'n sicrhau caniatâd i ddigido'r adnoddau yn gymharol hawdd? A fyddai'n bosib i'r Llyfrgell gyd-weithio gydag eraill er mwyn sicrhau'r hawl i ddigido? A fyddai'r adnoddau yn eu ffurf ddigidol yn agored i'w dosbarthu'n gyhoeddus a'u hail-ddefnyddio?
- **Ystyriaethau technegol ac**

6. Selection and prioritisation of resources for digitisation

Digitisation in the Library will be part of an operational plant drawn up and monitored by Pwgwd, the Digitisation operations committee, reporting to the Information Systems Strategy Committee (ISSC). The Library recognises that it will not be possible to digitise all our resources and therefore we will need to select and prioritise resources to be digitised.

Selection

The following criteria will be used in the selection of resources for digitisation.

- **Demand and use of the resources.** What is the demand for the resources in their analogue form? Who will use the resources in their digital form? Will access to the resources be made easier by digitising them? Have users said that they would like to see the resources digitised? Would digitisation increase use of the resources? Does the present limited access mean that digitisation would create new audiences for the resources? Would digitisation increase the use of the analogue originals? Have related resources been digitised?
- **Significance of the resources.** Do the resources form a comprehensive collection or are the resources unique or rare? Does the intellectual content of the resources justify the easier access afforded by their digitisation? Would digitisation add value to the resources or would access to the analogue originals suffice?
- **Rights and legal considerations.** Are the resources our of copyright and in the public domain? Would it be comparatively straightforward to secure permission to digitised the resources? Would it be possible for the Library to work in partnership to secure permission to digitise? Would the digitised resource be available for publication on the web and re-use?
- **Technical and practical considerations.** What resources

ymarferol. Faint o waith paratoi fydd ar yr adnoddau ar gyfer eu digido, gall hyn gynnwys eu trefnu, darparu disgrifiadau a dynodwyr trwy eu catalogio a chreu metadata, ac a oes angen gweithgaredd cadwraethol o ryw fath er mwyn gwneud y gwaith? A yw'r adnoddau wedi'u microffilmio ac a fyddai digido o ficroffilm yn ateb y gofynion? A fydd hi'n bosib dosbarthu'r adnoddau wedi'u digido trwy ddefnyddio offer sy'n bodoli'n barod neu a fydd angen datblygu rhai newydd?

- **Ychwanegu gwerth.** A fyddai digido'r adnoddau yn ychwanegu at eu gwerth i ddefnyddwyr? A fydd digido'r adnoddau yn galluogi defnyddio'r adnoddau mewn ffyrdd gwahanol nad oedd yn bosib yn eu ffurf analog? A fyddai digido yn gyfle i weithio mewn partneriaeth a denu ariannu o ffynhonellau allanol? A fyddai digido yn rhoi cyfle i gyfoethogi'r metadata disgrifiadol?
- **Perygl i'r adnoddau gwreiddiol.** A yw cyflwr ffisegol yr adnoddau gwreiddiol yn cyfyngu ar eu defnydd? A yw'r adoddau gwreiddiol mewn perygl? A ydyw cynnwys deallusol mewn perygl oherwydd fformatiau anarferedig? Ydy'r adnoddau gwreiddiol yn dirywio? A fyddai'n costio mwy i'w digido yn nes ymlaen nac yn hytrach nac ar hyn o bryd?
- **Ystyriaethau masnachol.** A fydd cyfleodd cynhyrchu incwm newydd yn dilyn digido'r adnoddau?

Blaenoriaethu

Bydd y Llyfrgell yn ystyried y canlynol wrth flaenoriaethu.

- Ydy'r adnoddau yn ymwneud â Chymru neu â'r Cymry?
- Ydy'r adnoddau gwreiddiol yn dod yn bennaf o gasgliad y Llyfrgell Genedlaethol?
- A fydd yr adnoddau yn cefnogi y cwricwlwm, ymchwil a dysgu?
- A fydd yr adnoddau yn cefnogi rhaglenni a gwasanaethau'r Llyfrgell Genedlaethol?
- A fydd yr adnoddau yn cefnogi

would be required to prepare the resources for digitisation, including organising them, preparing description and identifiers through cataloguing and the creation of metadata, would conservation work be required in order for digitisation to be undertaken? Have the resources been microfilmed and would digitisation from microfilm meet requirments?Would it be possible to disseminate the digitised resources using existing tools or would new ones be required?

- **Adding value.** Would digitisation of the resources add to their value for users? Would digitisation of the resources allow use of the resources in a different ways that would not be possible in their analogue form? Would digitisation provide an opportunity to work in partnership or draw funding from external sources? Would digitisation provide an opportunity to enrich the descriptive metadata?
- **Risk to the original resources.** Does the physical condition of the original resources limit their use? Are the original resources at risk? Is the intellectual content of the original resources at risk because of obsolete formats? Are the original resources degrading? Would it cost more to digitise later rather than at present?
- **Commercial considerations.** Would digitising the resources increase opportunities for new sources of income?

Prioritisation

The Library will take the following into account as it sets priorities.

- Do the resources relate to Wales or the Welsh?
- Are the resources mainly drawn from the collection of the National Library?
- Will the resources support the curriculum, research and learning?
- Will the resources support the programmes and services of the National Library?
- Will the resources support the programmes of the Welsh

rhaglenni Llywodraeth Cymru?

- A fydd y gweithgaredd yn cryfhau Cymru fel gwlad ddwyieithog?
- A fydd y gweithgaredd yn codi incwm a fydd yn galluogi'r Llyfrgell Genedlaethol i gynnal ac ehangu ei gwaith?

Government?

- Will the activity promote Wales a as bilingual country?
- Will the activities generate income which will allow the National Library to maintain and expand its work?

7. Mynediad at yr adnoddau a ddigidir a'u hail-ddefnyddio

Mynediad cyfartal a democrataidd. Mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo i gynnig mynediad i bawb mewn modd cyfartal a democrataidd at ei chasgliadau a'i gwasanaethau. Mae'r Llyfrgell yn llyfrgell gyhoeddus sydd yn galluogi defnyddwyr i ddefnyddio ei chasgliadau i ddibenion cyfeirio yn ddi-dâl, ac mae'n cadw at yr egwyddor hon wrth ymwneud â chasgliadau a gwasanaethau sydd wedi eu digido.

Hygyrchedd. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn cydnabod fod gwerth adnoddau digidol yn dibynnu ar sicrhau fod yr adnoddau hynny ar gael i ddefnyddwyr pan eu bod am eu defnyddio ac ar blatfformau y maent hwy yn dewis eu defnyddio. Sicrheir y bydd dulliau o ddosbarthu yn cydnabod yr angen i fod yn hygyrch i bob grŵp o ddefnyddwyr ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol.

Darganfod a defnyddio. Bydd mynediad at yr holl adnoddau a ddigidir ar gael yn gyffredinol trwy ryngwyneb chwilio cyffredin y Llyfrgell. Byddwn hefyd yn galluogi chwilio ar wahân ar gyfer casgliadau penodol yn ôl yr angen a gallai hynny gynnwys datblygu rhyngwynebau arbennig ar gyfer gwneud hynny. Ceir mynediad at yr adnoddau hefyd y tu fas i sustemau'r Llyfrgell trwy gatalogau cyfunol a gwasanaethau agregadu y mae'r Llyfrgell yn cyfrannu atynt. Ceir mynediad at yr adnoddau hefyd trwy beiriannau chwilio'r rhyngrwyd.

Data agored. Lle mae hynny'n bosib bydd y Llyfrgell yn sicrhau fod yr adnoddau ar gael mewn dull agored ac mewn modd y gellir eu defnyddio er mwyn ateb disgwyliadau defnyddwyr ac i gefnogi defnydd a gwasanaethau newydd. Byddwn yn annog eraill i ddarparu gwasanaethau darganfod a mynediad gan ddefnyddio'r adnoddau y bydd y Llyfrgell wedi'u digido.

Cyfraniadau gan ddefnyddwyr. Byddwn yn annog ac yn galluogi defnyddwyr i ychwanegu at a chyfoethogi y metadata disgrifadol a ddarperir gan y Llyfrgell.

7. Access and reuse of the digitised resources

Equal and democratic access. The Library has committed itself to give everyone access to its collections and services in an manner that is both equal and democratic. The Library is a public library that gives its users access to its collections for reference purposes without demanding payment, and it remains committed to this principle when it comes use of to is digitised collections and services.

Accessibility. The National Library recognises that value of its digital resources depend on those resources being available to users when they wish to use them and that they are available on the platform that they chooses to use. We will ensure that dissemination methods will recognise the need for accessibility for all groups of users and conforms to the relevant legislation and guidelines.

Discovery and use. Access to all of the digitised resources will generally be available through the Library's common search interface. We will also enable separate searching on specified collections as required and that might include the development of specific interfaces in order to provide these services. Access will also be available to the resources from outside the Library's own systems through merged catalogues and aggregation services to which the Library contributes. Resources will also be accessible through internet search services.

Open data. Where this will be possible the Library will ensure that the resources are made available in a manner which is both n open and usable in order to meet user expectations and to encourage and support use the development of new services by others. We will encourage others to develop new discovery and access services based upon the resources that the Library has digitised.

User contributions. We will encourage users to add to and enrich the descriptive metadata that the Library provides.

8. Cydweithio a phartneriaethau

Mae'r Llyfrgell wedi datblygu a meithrin traddodiad o gydweithio gydag ystod eang o sefydliadau a bydd yn hanfodol parhau i gydweithio'n agos gyda chyrff eraill i gyflawni amcanion y strategaeth ddigido hon a cheisio buddsoddiad pellach ar gyfer digido.

Byddwn yn parhau ein partneriaeth gydag Amgueddfa Cymru a Chomisiwn Breninhnol Henebion Cymru o fewn i raglen Casgliad y Werin Cymru er mwyn dosbarthu a chyfoethogi cynnyrch ein rhaglenni digido ar y cyd. Byddwn yn parhau hefyd i gydweithio gyda llyfrgelloedd cyhoeddus ac archifdai Cymru yn ogystal â Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru wrth ddigido adnoddau print ac unigryw. Bydd y bartneriaeth gydag ITV Cymru yn sylfaenol i'r gwaith digido ar achifau darlledu.

Estynnir cefnogaeth i raglenni a phrojectau digido sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt gyda chymorth a chyngor yn ôl y gofyn lle mae'n bosib inni ddod i gytundeb sydd o fudd i ni a'n partneriaid. Byddwn hefyd yn agored i weithio gyda phartneiriad masnachol lle bydd hynny yn dod â budd i'r Llyfrgell a'u defnyddwyr ac yn galluogi i ni gynnal a datblhygu ein rhaglen ddigido.

9. Y strategaeth hon

Cyfnod y strategaeth hon yw 2011/12-2014/15 ac mae'n cymryd lle Strategaeth ddigido 2008/09-2010/11. Bydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

8. Working with others and working in partnership

The Library has developed and sustained a tradition of working with a wide range of organisations and it is essential that close working of this kind is maintained and developed in order to achieve the aims of this digitisation strategy and as we seek further investment for digitisation.

We will continue to work closely in partnership with National Museum Wales and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales within the Peoples Collection Wales programme in order to disseminate and enrich the fruit of our joint digitisation programmes. We will also continue to work with public libraries and local archives in Wales as well as with the Welsh Higher Education Libraries Forum as we digitised print and unique resources. The partnership; with ITV Wales will be integral to the digitisation work on broadcast archives.

We will support digitisation programmes and projects of other bodies in Wales and beyond with help and advice as needed when it is possible for us to reach an agreement which is of benefit to the Library and those partners. We will also be open to working with commercial partners where that will bring benefits for the Library and its users en enable us to maintain and develop our digitisation programme.

9. This strategy

This strategy is for the period 2011/12-2014/15 and replaces the 2008/09-2010/11 Digitisation strategy. It will be reviewed annually.

Dogfennaeth berthnasol
Relevant documents

ARROW: accesible registries of rights information and orphan works towards Europeana. <http://www.arrow-net.eu/>. Gwelwyd / Viewed 2011-11-16.

Creative commons. < http://creativecommons.org/>. Gwelwyd / Viewed 2011-11-15.

European Commission, *Commission recommendation of 27.10.2011 on the digitisation and online accessibility of cultural material and digital preservation C(2011) 7579 final* (2011). <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2011:283:0039:0045:EN:PDF>. Gwelwyd / Viewed 2011-11-14.

Dan Hazen, Jeffrey Horrell & Jan Merrill-Oldham, *Selecting research collections for digitization* (Council on Library and Information Resources, 1998) <http://www.clir.org/pubs/reports/hazen/pub74.html> Gwelwyd / Viewed 2011-11-07

Deutsche Forschungsgemeinschaft, *Scientific library services and information services (LIS): DFG practical guidelines on digitisation* (2009). <http://www.dfg.de/download/pdf/foerderung/programme/lis/praxisregeln_digitalisierung_en.pdf>. Gwelwyd / Viewed 2011-11-16.

Lorna M Hughes, *Digitizing collections: strategic issues for the information manager* (Facet, 2004). Yn arbennig / Especially Chapter 2, 'Selecting materials for digitization'.

JISC Digital media, *Selection procedures for digitisation* (2008) <http://www.jiscdigitalmedia.ac.uk/crossmedia/advice/selection-procedures-for-digitisation/>. Gwelwyd / Viewed 2011-11-07

Library and Archives Canada, *LAC digitization strategy 2009-2014* (2008). < http://www.collectionscanada.gc.ca/digital-initiatives/012018-1100-e.html>. Gwelwyd / Viewed 2011-11-14.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru/ National Library of Wales
2020: golwg hirdymor ar Lyfrgell Genedlaethol Cymru / Twenty-twenty: a long view of the National Library of Wales (2010).
Polisi a strategaeth cadwedigaeth ddigido / Digital preservation policy and strategy (2008).
Polisi datblygu casgliadau 2010: egwyddorion a chanllawiau / Collections development policy 2010: principles and guidelines (2010).
Y llyfrgell ystwyth: strategaeth y Llyfrgell 2011-2012 i 2013-2014 / The agile library: the Library's strategy 2011-2012 to 2013-2014 (2011)
Strategaeth disgrifio a darganfod adnoddau 2010-11 – 2012-13/ Resource description and discovery strategy 2010-11–2012-13 (2010).
Theatr y cof: print Cymru ar-lein / The theatre of memory: Welsh print online (2011).
Mae'r holl ddogfennau yma i'w cael ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol <http://www.llgc.org.uk> ac fe'u gwelwyd 2011-11-25.
All of these documents are available on the National Library's website (http://www.llgc.org.uk> and were viewed on 2011-11-25.

National Library of New Zealand / Te Puna Mātauranga o Aotearoa, *Digitisation strategy 2010-2015* (2010) <http://www.natlib.govt.nz/catalogues/library-documents/national-library-digitisation-strategy>. Gwelwyd / Viewed 2011-11-07.

The new renaissance : report of the 'Comité des sage' : reflection group on brining Europe's cultural heritage onlin. (2011). <http://ec.europa.eu/information_society/activities/digital_libraries/doc/refgroup/final_report_cds.pdf>. Gwelwyd / Viewed 2011-11-14.

Oxford Internet Institute, University of Oxford, *Toolkit for the impact of digitised scholarly resources (TIDSR)*. < http://microsites.oii.ox.ac.uk/tidsr/>. Gwelwyd / Viewed 2011-11-14.